# Llamu Ymlaen – Asedau a’r Gweithlu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen


Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3006A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Yn ystod y pandemig, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i gasglu eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol, ond mae angen gwaith pellach er mwyn iddo ddeall ei anghenion o ran asedau a'r gweithlu yn y dyfodol ac i wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Yn ystod y pandemig, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i gasglu eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol, ond mae angen gwaith pellach er mwyn iddo ddeall ei anghenion o ran asedau a'r gweithlu yn y dyfodol ac i wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau 8

- Mae'r pandemig wedi effeithio ar gapasiti'r Cyngor i gynllunio ar gyfer ei asedau a'i weithlu dros y tymor hwy 8
- Nid yw trefniadau cyfredol y Cyngor yn ddigon effeithiol i sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth a chydweithio priodol rhwng gwasanaethau a'r canol corfforaethol 9
- Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i ddeall eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol ond nid yw eto'n deall yn llawn beth fydd ei anghenion yn y dyfodol o ran asedau a'r gweithlu 10

Mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredu i fod â mwy o ffocws ar y dyfodol, ond mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffeithiolrwydd 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, fe wnaeth ein hadolygiad ystyried sut y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

2 Fe wnaethom archwilio trefniadau a dull Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) ar y cyfan mewn perthynas â rheoli ei asedau a'i weithlu'n strategol. Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn 'a yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?'

a. ar gyfer asedau, roedd ein prif ffocws ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion; a

b. ar gyfer y gweithlu, bu ein ffocws ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion hirsefydlog o ran y gweithlu.

3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith mewn perthynas â'u hasedau i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac
- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig am bod y Cyngor yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau adeiladau a'i weithlu. Dangosir peth gwybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangosyn 1** isod.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigyrau allweddol mewn perthynas ag asedau adeiladau a'r gweithlu**

| Ffeithiau a ffigyrau allweddol sy'n ymwneud ag asedau adeiladau a'r gweithlu | |
|---|---|
| Maint y portffolio asedau | • 147 o adeiladau gweithredol |
| Gwerth asedau | • £317 miliwn[1] |
| Nifer y staff | • 3,316 cyfwerth ag amser llawn |
| Gwariant ar y gweithlu | • £142.7 miliwn[2] |

6 Bydd y prosiect, sy'n rhan o'r gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Archwilio 2021 yn helpu i gyflawni'r dyletswyddau dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004.

7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y galw am adeiladau a'r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn cael budd o'r effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r risgiau sy'n deillio o'r effeithiau negyddol wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

8 Cyflawnwyd y prosiect trwy gyfuniad o adolygiadau o ddogfennau, grwpiau ffocws a chyfweliadau â swyddogion ac aelodau. Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022.

## Yr hyn a ganfuom

9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi canfod rhai materion a gododd o ganlyniad i effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion o ran cynllunio strategol a materion diwylliannol a waethygwyd gan y pandemig. Canfuom agweddau cyffredin rhwng y dull a ddefnyddir ar gyfer asedau a'r gweithlu, yn ogystal â chanfyddiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r ddau a nodir isod.

[1] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

[2] Datganiad Cyfrifon 2020/21 (torfaen.gov.uk) nodyn 7.

10 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor, yn ystod y pandemig, wedi ymgysylltu â staff i gasglu eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol, ond bod angen gwaith pellach er mwyn iddo ddeall ei anghenion o ran asedau a'r gweithlu yn y dyfodol ac i wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau.

11 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i gasglu eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol, ond mae'r trefniadau cyfredol o ran ei asedau a'i weithlu'n cyfyngu ar ei allu i gynllunio ar gyfer y tymor hwy:
  - mae'r pandemig wedi effeithio ar gapasiti'r Cyngor i gynllunio ar gyfer ei asedau a'i weithlu dros y tymor hwy;
  - nid yw trefniadau cyfredol y Cyngor yn ddigon effeithiol i sicrhau trefniadau rhannu gwybodaeth a chydweithio priodol rhwng gwasanaethau a'r canol corfforaethol;
  - mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i ddeall eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol ond nid yw eto'n deall yn llawn beth fydd ei anghenion yn y dyfodol o ran asedau a'r gweithlu; ac
- mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredu i fod â mwy o ffocws ar y dyfodol, ond mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffeithiolrwydd.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Strategaethau a chynlluniau cyflawni**<br>A1 Wrth ddatblygu ei strategaeth newydd ar gyfer rheoli asedau a'i strategaeth newydd ar gyfer y gweithlu, dylai'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, ac yn benodol dylai sicrhau eu bod:<br>• yn adeiladu ar ei brofiad o bandemig COVID-19;<br>• yn ystyried tueddiadau tymor hwy a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau a defnydd effeithlon o asedau a'r gweithlu;<br>• yn gyson â dogfennau strategol eraill, gan gynnwys datgarboneiddio, a strategaethau digidol;<br>• yn nodi deilliannau bwriadedig y Cyngor dros y tymor byr, canolig a hwy;<br>• yn ystyried anghenion staff, defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid; ac |

**Argymhellion**

- yn nodi mesurau perfformiad CAMPUS a threfniadau monitro ac adrodd priodol.

**Cynlluniau asedau a'r gweithlu ar lefel gwasanaethau**

A2 Datblygu cynlluniau mwy effeithiol ar gyfer asedau a'r gweithlu ar lefel gwasanaethau i ategu'r cyfeiriad strategol corfforaethol i lywio a llunio nodau hirdymor.

**Rhannu gwybodaeth a chydweithio**

A3 Dylunio a gweithredu trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a chydweithio'n digwydd mewn modd priodol rhwng gwasanaethau a'r canol corfforaethol.

**Monitro cynnydd**

A4 Dylunio a gweithredu trefniadau i fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu cynnydd gyda'i strategaethau, cynlluniau cyflawni a chynlluniau ar lefel gwasanaethau ar gyfer asedau a'r gweithlu.

**Gwerthuso manteision gweithio mewn partneriaeth**

A5 Cydweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus ledled Gwent i werthuso manteision posibl datblygu dull hirdymor strategol o reoli un ystâd gyhoeddus.

# Adroddiad manwl

## Yn ystod y pandemig, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i gasglu eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol, ond mae angen gwaith pellach er mwyn iddo ddeall ei anghenion o ran asedau a'r gweithlu yn y dyfodol ac i wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau

### Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i gasglu eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol, ond mae'r trefniadau cyfredol o ran ei asedau a'i weithlu'n cyfyngu ar ei allu i gynllunio ar gyfer y tymor hwy

#### Mae'r pandemig wedi effeithio ar gapasiti'r Cyngor i gynllunio ar gyfer ei asedau a'i weithlu dros y tymor hwy

12 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i ddygymod â'r pandemig gan barhau i ddarparu gwasanaethau allweddol. Fe wnaeth y pandemig amlygu materion o ran y gweithlu megis anhawster recriwtio mewn rhai gwasanaethau, a'r angen i addasu ei ffyrdd o weithio i barhau i ddarparu yn ystod argyfwng.

13 Cyn y pandemig, dechreuodd y Cyngor ar ei Brosiect Trawsnewid Gweithleoedd. Nod y prosiect oedd lleihau nifer yr adeiladau a ddefnyddir ar gyfer swyddfeydd corfforaethol ac ar gyfer storfeydd. Roedd y Cyngor yn amcanu at leihau'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer ei brif swyddfeydd o dri adeilad i un prif safle yn y Ganolfan Ddinesig. Yn fwyaf diweddar fe adawodd y Cyngor safle yr oedd yn ei brydlesu yng Ngorsaf Heddlu Pont-y-pŵl yn 2021.

14 Yng nghyfnod cynnar y pandemig, fe wnaeth llawer o staff addasu i weithio gartref. Nid oedd rhai'n gallu gweithio gartref am nad oedd y gwasanaethau'n gallu cael eu darparu o bell, ac fe adleolwyd rhai aelodau o staff i ddyletswyddau eraill.

15 Yn ystod 2021, fe wnaeth y Cyngor newidiadau i'w Uwch Dîm Arwain (UDA) a oedd yn cynnwys penodi ei Brif Weithredwr newydd (a gychwynnodd ym mis Gorffennaf 2021) ac fe sefydlodd gyfarwyddiaeth Cymunedau, Cwsmeriaid a Digidol newydd.

16 Er bod y Cyngor wedi ymateb i'r pandemig i sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu, fe ganolbwyntiodd uwch swyddogion ar sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn dal i gael eu darparu ac nid oedd ganddynt ddigon o le ar gyfer 'meddwl yn strategol' er mwyn blaengynllunio'n weithredol.

17 Hefyd, dywedodd swyddogion y siaradom ni gyda hwy eu bod yn disgwyl i'r cyfeiriad strategol newydd gael ei bennu gan y Prif Weithredwr newydd, i allu adolygu'r blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

18 Nid yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol lle mae ei asedau a'i weithlu yn y cwestiwn wedi'i ddisgrifio mewn strategaeth flaengar, hirdymor ar hyn o bryd. Ond mae'r Strategaeth Rheoli Asedau 2021-2023 a Strategaeth Ddrafft y Gweithlu 2021-2024 yn cwmpasu cyfnod byr, ac maent wedi'u drafftio yn ôl graddfeydd amser byr i fod yn gyson â'r cynllun corfforaethol cyfredol sydd i fod i gael ei ddiweddaru yn 2023. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti y bydd eu hangen arno yn awr ac yn y dyfodol, er mwyn iddo allu dylunio cynlluniau ar gyfer y gweithlu sy'n cyflawni amcanion byrdymor ac yn gwireddu uchelgeisiau tymor hwy.

19 Dywedwyd wrthym fod Strategaeth Ddrafft y Gweithlu'n mynd trwy ei phrosesau mewnol yn barod ar gyfer ei rhoi ar waith pan drawodd y pandemig, gan orfodi'r Cyngor i ddargyfeirio'i adnoddau i ymateb i flaenoriaethau uniongyrchol eraill. Nid yw Strategaeth Ddrafft y Gweithlu 2021-2024 wedi cael ei chylchredeg yn eang drwy'r sefydliad i gyd a dywedwyd wrthym fod angen ei hadolygu a'i diweddaru yng ngoleuni'r pandemig.

20 Mae'r angen i ymateb i'r pandemig a diffyg cyfeiriad strategol wedi effeithio ar gapasiti'r Cyngor i gynllunio ar gyfer ei asedau neu ei weithlu dros y tymor hwy. Bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y mae'n cynnwys digon o gapasiti i gynllunio'n strategol a gwneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w weledigaethau corfforaethol a chynlluniau ategol ar gyfer ei asedau a'i weithlu i'w helpu i wireddu ei ddyheadau, yn awr ac yn y dyfodol. Dylai hyn helpu i sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf, ar draws ei amcanion.

## Nid yw trefniadau cyfredol y Cyngor yn ddigon effeithiol i sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth a chydweithio priodol rhwng gwasanaethau a'r canol corfforaethol

21 Ceir diffyg trefniadau ffurfiol, sy'n amlygu datgysylltiad rhwng gwasanaethau a'r canol corfforaethol.

22 Caiff y portffolio asedau ei reoli fel model 'Landlord Corfforaethol' sy'n golygu bod yr holl asedau eiddo'n cael eu trin fel adnoddau'r Cyngor ac nid fel rhai sy'n 'perthyn' i feysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gallai'r cyfathrebu rhwng gwasanaethau a'r Gwasanaethau Rheoli Asedau gael ei gryfhau i'w gwneud yn bosibl i waith yn y dyfodol gael ei gynllunio mewn modd rhagweithiol.

23 Mae'r Cyngor yn gweithredu Model Partner Busnes Adnoddau Dynol sy'n gweithio gyda gwasanaethau i feithrin gallu'r gweithlu, a llunio a gweithredu strategaethau effeithiol i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae dull y Cyngor o weithredu trefniadau cynllunio'r gweithlu'n anffurfiol ar y cyfan ac yn dibynnu ar berthnasoedd da rhwng yr adran Adnoddau Dynol a gwasanaethau yn hytrach na threfniadau

systemig. Er bod y dull yn galluogi'r adran Adnoddau Dynol a gwasanaethau i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ffurfioli rhai trefniadau a phrosesau.

24 Ychydig o dystiolaeth sydd o integreiddio rhwng strategaethau corfforaethol. Rhaid i'r Cyngor fod yn glir sut y mae'r dogfennau ar lefel strategol yn cyd-fynd â'i gilydd, sut y byddant yn cael eu cyfleu i'r sefydliad ehangach, a sut y bydd yn parhau i ymgysylltu â'r gweithlu ehangach ynghylch ei asedau a'i weithlu.

## Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i ddeall eu barn ynglŷn â gweithio cyfunol ond nid yw eto'n deall yn llawn beth fydd ei anghenion yn y dyfodol o ran asedau a'r gweithlu

25 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'i staff i ddeall sut y mae arnynt eisiau gweithio yn y dyfodol, ac ar newidiadau arfaethedig i'r Ganolfan Ddinesig. Yn ôl arolwg staff a gynhaliwyd yn haf 2020, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ystyried bod y newid i weithio gartref yn newid cadarnhaol ond roedd arnynt eisiau'r cyfle i gwrdd a rhyngweithio â chydweithwyr yn y swyddfa trwy fabwysiadu arddull gweithio cyfunol.

26 Ym mis Ebrill 2021, bu gweithgarwch pellach i ymgysylltu â staff trwy gyfres o ddigwyddiadau rhithwir, ac yn fwyaf diweddar fe ddarparodd cynhadledd y tîm arwain estynedig gyfle i ystyried y cynigion adnewyddu ar gyfer y Ganolfan Ddinesig a sut y gallai fod ar y gweithlu eisiau defnyddio'r ased.

27 Mae'n bwysig ystyried y ffyrdd yr hoffai staff weithio i lunio'r arddull gweithio cyfunol, ond mae cyfle pellach i archwilio sut y gallai gwasanaethau gael eu darparu yn y dyfodol a rôl asedau o ran cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer trigolion Torfaen.

28 Nid oes disgwyliad corfforaethol bod angen i wasanaethau ag asedau yn eu cylch gwaith fod â chynllun rheoli asedau, ac felly nid oes unrhyw reolaeth ganolog ar asedau i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Er y gall gwasanaethau unigol fod yn deall eu hanghenion cyfredol o ran asedau a'r gweithlu, mae angen gwaith pellach yn gorfforaethol i gael trosolwg well ac ystyried sut y mae'r wybodaeth hon yn dylanwadu ar gynlluniau.

29 Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar ddulliau cydweithredol o reoli asedau. Yn 2020, fe gytunodd sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Ngwent i gydweithio gyda golwg ar adnabod dulliau strategol posibl o fynd ar drywydd Un Ystâd Gyhoeddus. Gall dull o'r fath nodi hyblygrwydd, cyfleoedd i integreiddio a llai o ddibyniaeth i geisio datrysiadau yn y farchnad breifat a allai ostwng costau o bosibl. Fodd bynnag, cyfyngwyd ar y cynnydd hyd yma gan ofynion gweithredol pandemig COVID-19. Wrth i'r Cyngor a'i bartneriaid rhanbarthol ddatblygu eu strategaethau newydd ar gyfer rheoli asedau, mae cyfle yn awr i lywio dull cydweithredol o reoli asedau, fel yr ymrwymwyd i'w wneud yn 2020.

30 Nid oes system awtomataidd ar hyn o bryd i gasglu a rheoli gwybodaeth am y gweithlu yn y Cyngor. Dywedodd y Cyngor wrthym fod angen iddo greu mecanwaith i gasglu ac yna defnyddio data i oleuo prosesau penderfynu ac mae'n archwilio'r defnydd o feddalwedd dadansoddeg data i ategu'r nod yma.

31 Mae gan y Cyngor ddata ar y gweithlu megis proffil oedran, cyfraddau salwch, hyd gwasanaeth ac mae'n cydnabod bod arno angen dealltwriaeth well am ddata cymwyseddau a sgiliau a pha sgiliau a chymwyseddau fydd eu hangen yn y dyfodol. Ar adeg ein gwaith maes, roedd trafodaethau ynglŷn â pha sgiliau yr oedd angen casglu gwybodaeth amdanynt a sut y gellid defnyddio'r wybodaeth hon, ond roedd y rhain yng nghyfnod cynnar eu datblygiad.

32 Mae'r Cyngor yn cyfranogi'n weithredol mewn rhwydweithiau rheoli asedau rhanbarthol a chenedlaethol, ond nid oes unrhyw weithgarwch meincnodi na dysgu ffurfiol yn digwydd mewn perthynas â rheoli asedau.

33 Mae'r Cyngor, ynghyd ag eraill, wedi ei chael yn fwyfwy anodd penodi staff proffesiynol â chymwysterau addas mewn sawl maes. Mae'n profi problemau recriwtio i reolau mewn gwasanaethau peirianneg, gofal cymdeithasol, gwasanaethau cynllunio, a rheoli prosiectau, yn ogystal â rolau mwy pwrpasol sy'n ymgysylltu â'r gymuned fusnes.

34 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod arno angen trefniadau cynllunio'r gweithlu mwy effeithiol i gefnogi staff presennol a helpu i adnabod anghenion ei wasanaethau yn y dyfodol o ran y gweithlu. Er enghraifft, nid oes gan y Cyngor gynlluniau'r gweithlu ar lefel gwasanaethau ar hyn o bryd na phrosesau ffurfiol i adnabod sgiliau/talent allweddol a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredu i fod â mwy o ffocws ar y dyfodol, ond mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffeithiolrwydd

35 Ceir ymwybyddiaeth ymhlith yr Uwch Dîm Arwain ac aelodau'r Cyngor bod angen i'r Cyngor greu capasiti strategol ychwanegol i ddylunio newidiadau i'w ffyrdd o weithio i lywio gwelliant. Mae'r Cyngor yn cymryd camau yn hyn o beth yn awr.

36 Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu 'Fframwaith Strategol Llesiant Torfaen' sy'n nodi sut y mae'r Cyngor yn amcanu at ddefnyddio cynlluniau megis y Cynllun Corfforaethol i gyflawni ei genhadaeth ar y cyfan. Mae'r fframwaith drafft yn rhoi ffocws ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn nodi sut y bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei gwreiddio yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

37 I ategu 'Fframwaith Strategol Llesiant Torfaen', mae'r Cyngor hefyd yn datblygu ei fframwaith rheoli perfformiad newydd. Rydym wedi gweld dogfennaeth ddrafft y mae'r Cyngor yn ei datblygu, er ei bod hi'n rhy gynnar i werthuso ei heffeithiolrwydd.

38 Darparodd cynhadledd y Tîm Arwain Estynedig y cyfeiriwyd ati ym **mharagraff 26** gyfle i gynnwys staff yn y broses o lunio blaenoriaethau allweddol, ac roedd yn canolbwyntio ar y canlynol mewn perthynas â'r Cyngor:

- Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol
- Perfformiad yn y Dyfodol
- Gweithleoedd y Dyfodol
- Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol

39 Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau â chynhadledd y Tîm Arwain Estynedig fel dull o gynnwys y staff yn barhaus a darparu cyfle i gryfhau cydweithio rhwng gwasanaethau.

40 Mae cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cwsmeriaid a Digidol sydd newydd ei sefydlu'n amcanu at helpu'r Cyngor i wireddu ei uchelgais i wella capasiti a chydnerthedd cymunedau. Bydd gan y gyfarwyddiaeth newydd ffocws ar gynnwys y cyhoedd i gael dealltwriaeth well am anghenion cymunedau i oleuo'r broses o ddylunio gwasanaethau, gan gynnwys asedau a gweithlu'r Cyngor. Ar adeg ein gwaith maes, roedd hyd a lled y gwaith hwn yn cael ei bennu.

41 Dywedwyd wrthym fod y Cyngor yn ystyried opsiynau i gefnogi trefniadau rheoli rhaglenni i gryfhau goruchwyliaeth, cyfeiriad a dysgu ar draws y Cyngor. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd hyn wedi cael ei roi ar waith eto.

42 Fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 13**, cyn y pandemig, dechreuodd y Cyngor ar ei brosiect Trawsnewid Gweithleoedd a oedd yn amcanu at leihau nifer yr adeiladau a ddefnyddir ar gyfer swyddfeydd corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y pandemig ar ei brosiect Trawsnewid Gweithleoedd. Dywedodd y Cyngor wrthym fod y portffolio swyddfeydd cyfredol wedi'i fwriadu i letya staff a oedd yn gweithio yn ôl patrymau gweithio cyn y pandemig. Mae'r Cyngor yn deall bod ar gyflogeion angen lle yn awr sydd wedi'i ddylunio ar gyfer gweithgareddau mwy cydweithredol sy'n ategu trefniadau gweithio cyfunol.

43 Yn ystod 2022-23, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar roi ei brosiect Trawsnewid Gweithleoedd ar waith. Ei nod yw y bydd ei swyddfeydd corfforaethol yn cael eu darparu'n bennaf yn y Ganolfan Ddinesig lle bydd cyflogeion wedi'u lleoli, ar sail model gweithio cyfunol. Mae hyn hefyd yn cynnwys staff sydd wedi'u lleoli yn Nhŷ Blaen ar hyn o bryd. Ym mis Mehefin 2022, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo'r cynigion a'r cyllid ar gyfer adnewyddu ac ailddylunio'r Ganolfan Ddinesig.

44 Fe greodd y Cyngor swyddogaeth Datblygu Sefydliadol yn union cyn i'r pandemig daro. Ymhlith uchelgeisiau eraill, roedd y swyddogaeth Datblygu Sefydliadol wedi'i bwriadu i ganoli gwersi a datblygiad a chynnydd yn y dyfodol gyda chynllun prentisiaeth. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion wrthym nad ydynt wedi gallu gwneud y gwaith oherwydd yr angen i ymateb i'r pandemig ond eu bod yn cydnabod bod rhaid i'r gwaith ailddechrau yn awr.

45 Mae bod â staff sy'n meddu ar gymhwysedd digidol yn allweddol er mwyn i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau'n wahanol yn y dyfodol. I ddeall lefelau sgiliau staff ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol

Cymru (CLlLC) ac wedi comisiynu gwaith i gwblhau asesiad o aeddfedrwydd digidol. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y gwaith hwn yn y cyfnod cynllunio. Mae'r raddfa amser ar gyfer y gwaith hwn yn aneglur.

46 Rydym wedi gweld drafft o'r templed Cynllun Gwasanaeth diwygiedig sy'n amcanu at helpu i ddeall gweledigaeth hirdymor gwasanaethau, adnabod yr heriau allweddol y maent yn eu hwynebu, y goblygiadau ar gyfer eu gweithlu, ac anghenion hyfforddi a datblygu. Nid yw'n glir a fydd canllawiau newydd ar gael hefyd i gynorthwyo rheolwyr i gynhyrchu'r cynlluniau gwasanaeth.

47 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno cyfleoedd i weithio'n wahanol hefyd, ac yn awr mae angen i'r Cyngor ystyried ei anghenion o ran asedau a'r gweithlu yn y dyfodol. Wrth i'r Cyngor ail-lunio ei fusnes, mae ganddo gyfleoedd i fod yn uchelgeisiol a nodi sut allai'r dyfodol edrych. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried y galw am wasanaethau yn y tymor hir. Bydd proses wedi'i gwreiddio ar gyfer cynllunio asedau a'r gweithlu'n helpu holl wasanaethau'r Cyngor i nodi sut y mae'r dyfodol yn edrych.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.